**COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANDYFAELOG**
**GYNHALIWYD YN Y NEUADD 14 MAI 2026 AM 7.30YH**

**1. Yn bresennol:** Y Cyng Jenny Jones (Cadeirydd), Philip Davies, Janet Knott, Meinir James, Elfyn Williams, Rheinallt Jones, Nicola Jones, Cynghorydd Sir Tyssul Evans ac Arfon Davies (Clerc).

**Ymddiheuriadau**: Y Cyng Carys Thomas, Viv Davies, Shan Rees ac Eifion Jones.

Darllenodd y Clerc lythyr a dderbyniwyd gan y Cynghorydd Carys Thomas yn nodi ei hymddiswyddiad fel aelod o'r Cyngor. Nododd yr aelodau eu tristwch o dderbyn y newyddion hwn. Bydd y Clerc yn ysgrifennu at Carys i ddiolch iddi am ei gwasanaeth fel Cynghorydd a bydd yn ysgrifennu at y Cyngor Sir i ddechrau trefniadau mewn perthynas ag ethol aelod newydd o'r Cyngor.

**2. Datganiadau Diddordeb**

Dim datganiadau.

**3. Cyfranogiad gan y Cyhoedd**

Nodwyd nad oedd unrhyw aelod o'r cyhoedd yn bresennol ar yr achlysur hyn.

**4. Cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar y 2^il Ebrill 2026.**

**5. Materion yn Codi**

1. **Green Gen** – Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Nodwyd.
2. **Cais cynllunio, PL/02147 mewn eiddo yn ardal coetir - Idole i Pentrepoeth –** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Nodwyd.
3. **Materion diogelwch ffyrdd ym Mancycapel –** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Nodwyd.
4. **Pont Rhydyronnen –** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Nodwyd.
5. **PL/09369** - **1-3 Gelligaeros Trading Estate, Cwmffrwd, Caerfyrddin, SA32 8DJ** – Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Nodwyd.
6. **Maesglasnant, Cwmffrwd –** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Nodwyd.
7. **Cynghorau Cymuned cyswllt Tywi/Teifi – Cyfarfod i Gynghorau Cymuned a Thref mewn ardaloedd yr effeithiwyd arnynt gan y prosiect peilonau –** Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 19^eg Mai 2026. Roedd y Clerc wedi dosbarthu cofnodion y cyfarfod diweddaraf a gynhaliwyd ar 31^ain Mawrth 2026. Nodwyd.
8. **Diogelwch Ffyrdd yng Nghyffordd Llandyfaelog -** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Nodwyd.

9. **Presenoldeb yr heddlu mewn Cyfarfod Cyngor neu ddigwyddiad Allgymorth Cymunedol** – Gobeithiwyd y byddai'r Swyddog Heddlu yn gallu mynychu cyfarfod y Cyngor ym mis Mehefin neu fis Gorffennaf.
10. **Materion Gorfodi Cynllunio mewn caeau yn Idole** – Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Nodwyd.
11. **Meddygfa Sarn –** Nodwyd y byddai Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn cyfarfod ar 28ain Mai 2026 lle byddai'r mater yn cael ei ystyried ymhellach. Nodwyd.
12. **Materion Gorfodi Cynllunio sy'n ymwneud â Chanolfan Adar Ysglyfaethus ym Mhantgwyn -** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Nodwyd.
13. **PL/10552** - Caniatâd cynllunio llawn ar gyfer codi is-orsaf AIS 400kV (gan gynnwys platfform, ffordd fynediad a seilwaith cysylltiedig) - Tir yn Llandyfaelog, Caerfyrddin. Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Nodwyd.
14. **Prosiect Is-orsaf NGED** – Nodwyd bod cyfarfod wedi'i gynnal ar 24ain Ebrill gyda phrosiect is-orsaf NGED a bod cofnodion y cyfarfod wedi'u dosbarthu i aelodau.

**6. Gohebiaeth**

1. **Un Llais Cymru –** Cylchlythyr Y Llais. Nodwyd.
2. **Un Llais Cymru –** Dyddiadau hyfforddi. Nodwyd.
3. **Un Llais Cymru –** E-fwletin. Nodwyd.
4. **Cyngor Sir Caerfyrddin –** Hysbysiad o gau ffordd frys yng Nghwmale, Llandyfaelog ar 13/04/2026 rhwng 09:30 a 15:30. Nodwyd.
5. **Cyngor Sir Caerfyrddin –** Hysbysiad o gau ffordd frys ar y C2074 yn Nyth y Wennol ddydd Llun 13/04/26 rhwng 09:30 a 15:30. Nodwyd.
6. **Gwynt Glas –** Gwahoddiad i fynychu sesiynau gwybodaeth ar Fferm Wynt Arnofiol Gwynt Glas. Nodwyd.
7. **Cyngor Sir Caerfyrddin –** Hysbysiad o ostyngiad cyflymder i 10mya ar hyd y Ffordd Dosbarth A (A484 Uplands) sy'n arwain o Gylchfan Pibwrlwyd i Sgwâr Llandyfaelog, o bwynt 320 metr i'r de o'i chyffordd â'r Ffordd Dosbarth C (C2073 Croesyceiliog) am bellter o 150 metr i gyfeiriad deheuol ar 13eg Mai 2026 ac sydd â hyd uchaf o 21 diwrnod. Nodwyd.
8. **Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru –** Cylchlythyr Calon Tân. Nodwyd.
9. **Cyngor Sir Caerfyrddin –** Cadarnhad o daliad o 1/3 o bresept 2026-27 sef £11,333.34. Nodwyd.
10. **Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc Sir Gâr –** Gwahoddiad i'r Cadeirydd fynychu Rali Clybiau Ffermwyr Ifanc a gynhaliwyd ar 9fed Mai 2026. Nododd y Cadeirydd ei bod wedi mynychu. Anfonir llythyr llongyfarchiadau at y clwb ar eu llwyddiant yn y Rali.
11. **Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed Powys –** Bwletin y CHT. Nodwyd.
12. **Cylchgrawn Chwarae dros Gymru** – Nodwyd.
13. **Cylchgrawn Clerks and Councils Direct** – Nodwyd.
14. **Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda** – Y Bwrdd Iechyd yn lansio strategaeth hirdymor wedi'i hadnewyddu. Nodwyd.
15. **Un Llais Cymru** – Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Ardal Caerfyrddin a gynhaliwyd ar 15fed Ebrill 2026. Nodwyd.

16. **Cyngor Sir Caerfyrddin** - Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) Diwygiedig Sir Gaerfyrddin 2018 – 2033 – Ymgynghoriad ar y newidiadau Materion yn codi, yr Asesiad Cynaliadwyedd Integredig a'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn dilyn yr Archwiliad Annibynnol o'r CDLl.
17. **Cyngor Sir Caerfyrddin** – Adolygiad o lwybrau troed yn gofyn am wybodaeth ar Ffordd ar Agor i Bob Traffig yn ardal Cwmffrwd. Bydd y Clerc yn gofyn am ragor o wybodaeth am y cais. Bydd y Clerc hefyd yn cysylltu ag Adran Archifau'r Cyngor Sir ynghylch y diffyg gwybodaeth cofnodion y Cyngor a nodwyd yn yr e-bost a dderbyniwyd.
18. **Un Llais Cymru** – Gwybodaeth am Becynnau Bioamrywiaeth. Nodwyd.

**7. Cae Idole ac Amwynderau Cymunedol**

1. **Gwaith Arolwg Coed**

Cadarnhawyd cwbwlhad y gwaith gan Lampeter Tree Services.

**8. Atgyweiriwr Cymunedol**

Cadarnhaodd y Clerc 28 awr wedi eu gweithio ym mis Ebrill gyda chyfanswm cost o £672.00 y mis yn cael ei gytuno. Cytunwyd hefyd dorri gwair ar gyfer Ebrill gyda chost o £336.00 y mis.

**9. Addewid Sifildeb a Pharch Un Llais Cymru**

Cyflwynodd y Clerc yr Addewid Sifildeb a Pharch diwygiedig gan Un Llais Cymru. Cofiodd yr aelodau eu bod wedi cymeradwyo'r fersiwn flaenorol o'r addewid yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Ionawr. Ystyriodd y Cyngor yr Addewid Sifildeb a Pharch. Cytunodd y Cyngor i fabwysiadu'r addewid.

**10. Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol**

Nododd y Clerc fod Cyngor Cymuned Llandyfaelog yn parhau i fodloni gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 i fod yn Gyngor cymwys sy’n gallu arfer y pŵer cymhwysedd cyffredinol.

Ystyriodd y Cyngor y materion a cytunwyd yn unfrydol i mabwysiadu penderfyniad yn cadarnhau bod Cyngor Cymuned Llandyfaelog yn parhau i fodloni’r amodau yn unol ag Atodlen 4, Rhan 1 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ei fod yn gyngor cymuned cymwys sy’n gallu arfer y pŵer cymhwysedd cyffredinol.

**11. Taliadau a Lwfansau Aelodau 2026-27**

Rhoddwyd ystyriaeth i penderfyniadau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ar gyfer y flwyddyn 2026-27 fel a ganlyn.

Cost Gofal - Roedd rhaid i'r Cyngor ddarparu ar gyfer ad-dalu costau angenrheidiol ar gyfer gofalu am blant ac oedolion dibynnol (a ddarperir gan ofalwyr anffurfiol neu ffurfiol) ac ar gyfer anghenion cymorth personol.

Byddai hyn yn cael ei ad-dalu yn y cyfarfod ar ôl i hawliad gael ei gyflwyno i'r Clerc. Nodwyd hyn.

Costau a Threuliau 1 – Roedd rhaid i'r Cyngor sicrhau bod taliad o £156 y flwyddyn ar gael i bob un o'i aelodau tuag at gostau cartref ychwanegol (gan gynnwys gwres, golau, pŵer a band eang) o weithio gartref.

Bydd hwn yn cael ei dalu yn mis Mawrth bob blwyddyn oni bai bod aelod yn cadarnhau i'r Clerc nad yw'n dymuno hawlio'r cyfan, neu ran ohono. Nodwyd hyn.

Costau a Threuliau 2 – Roedd rhaid i gynghorau naill ai dalu £52 y flwyddyn i'w haelodau am gost nwyddau traul swyddfa sydd eu hangen i gyflawni eu rôl, neu fel arall rhaid i gynghorau alluogi aelodau i hawlio ad-daliad llawn am gost nwyddau traul eu swydd.

Cytunwyd i ddarparu ar gyfer ad-daliad am gost nwyddau swyddfa. Bydd hwn yn cael ei dalu yn mis Mawrth bob blwyddyn oni bai bod aelod yn cadarnhau i'r Clerc nad yw'n dymuno hawlio'r cyfan, neu ran ohono. Nodwyd hyn.

Swyddi Uwch – Gall y Cyngor darparu taliad blynyddol o £500 yr un ar gael i o un ac uchafswm o tri aelod i gydnabod cyfrifoldebau penodol. Mae hyn yn ychwanegol at y taliadau o £156 a £52 ar gyfer costau a threuliau. Cytunwyd i ddarparu'r taliad hwn.

Teithio – Gall y Cyngor wneud taliadau i bob un o'i aelodau mewn perthynas â chostau teithio am fynychu dyletswyddau cymeradwyyd. Roedd hyn yn ddewisol. Nodwyd a cytunwyd hyn.

Aros dros nos – Gall y Cyngor, os yw dyletswydd yn gofyn am aros dros nos, awdurdodi ad-dalu costau cynhaliaeth i'w aelodau ar y cyfraddau uchaf a gyhoeddwyd. Roedd hyn yn ddewisol.

Byddai hwn yn cael ei ad-dalu yn y cyfarfod dilynol ar ôl i hawliad gael ei gyflwyno i'r Clerc. Nodwyd a chymeradwywyd hyn.

Colled Ariannol – Gall y Cyngor dalu iawndal colled ariannol i bob un o'i aelodau, lle bu colled o'r fath, am fynychu dyletswyddau cymeradwy fel y'u cyhoeddwyd.

Byddai hwn yn cael ei ad-dalu yn y cyfarfod dilynol ar ôl i hawliad gael ei gyflwyno i'r Clerc. Nodwyd a chymeradwywyd hyn.

Lwfans Presenoldeb – Gall y Cyngor dalu lwfans presenoldeb i aelodau. Yr uchafswm gorfodol ar gyfer pob digwyddiad cymwys oedd £30 ac ni fydd gan aelod sy'n derbyn iawndal colled ariannol hawl i hawlio lwfans presenoldeb ar gyfer yr un digwyddiad.

Os bydd y cyngor yn penderfynu o blaid lwfansau presenoldeb, rhaid iddo lunio cynllun i'w fabwysiadu'n ffurfiol a gwneud darpariaeth iddo fod ar gael i'r cyhoedd.

Rhaid i daliadau am bresenoldeb fod mewn perthynas â busnes swyddogol neu ddyletswydd gymeradwy a nodir yn Rheolau Sefydlog y Cyngor neu fel arall drwy

benderfyniad penodol. Dylai'r cynllun nodi ar gyfer pa ddigwyddiadau y gwneir taliadau.
Bydd gan bob aelod o’r cyngor hawl i’r taliad am fynychu’r digwyddiadau a nodir yn y cynllun, ond gall aelod unigol wrthod derbyn taliad drwy hysbys'r Clerc (yn ysgrifenedig). Cytunwyd i beidio ddarparu’r lwfans hwn ar gyfer y Cyngor.

Pennaeth Dinesig – Roedd y Cyngor yn gallu roi taliad Pennaeth Dinesig i'r Cadeirydd hyd at uchafswm o £1,500. Roedd hyn yn ychwanegol at y taliadau o £156 a £52 ar gyfer costau a threuliau a’r uwch gyflog o £500 os caiff y rhain eu hawlio gan yr aelod hwnnw. Roedd y taliad hwn yn ychwanegol at y gyllideb o £420 a ddyrennir i weithgareddau’r Cadeirydd. Cytunwyd i beidio ddarparu’r lwfans hwn ar gyfer y Cyngor.

Dirprwy Bennaeth Dinesig – Gall y Cyngor roi taliad Dirprwy Bennaeth Dinesig i’r Is-Gadeirydd hyd at uchafswm o £500. Mae hyn yn ychwanegol at y taliadau o £156 a £52 ar gyfer costau a threuliau a’r uwch gyflog o £500 os caiff y rhain eu hawlio gan yr aelod hwnnw. Cytunwyd i beidio ddarparu’r lwfans hwn ar gyfer y Cyngor.

**12. Cytundeb Yswiriant 2026-27**

Rhoddwyd ystyriaeth i Bolisi Yswiriant y Cyngor ar gyfer Blwyddyn Ariannol 2026-27 gyda 5$^{ed}$ flwyddyn y cytundeb 5 mlynedd wedi ei nodi a'i gymeradwyo ar gost o £658.11.

**13. Digwyddiadau Cymunedol 2026**

Trafododd y Cyngor Ddigwyddiadau Cymunedol posibl yn 2026 fel a ganlyn:

- Cystadleuaeth Ardd (Llysiau - Diwedd Mehefin a Blodau – Dechrau Awst);
- Cystadleuaeth Ymdrech Gymunedol - Bydd y Clerc yn siarad ag Ysgrifennydd Sioe Llandyfaelog ynglŷn â'r posibilrwydd bod hyn yn gysylltiedig â chystadleuaeth addurno berfa.

**14. Adolygiad Disgrifiad Swydd a Chontract Clerc y Cyngor**

Datganodd y Cynghorydd Philip Davies ei diddordeb a gadawodd y cyfarfod ar gyfer yr eitem hon.

Ystyriwyd y posibilrwydd o gynnal adolygiad o Ddisgrifiad Swydd a Chontract y Clerc. Darparwyd cost o £210.00 gan Un Llais Cymru i wneud hyn. Cytunwyd hyn.

**15. Cyfrifon**

**Cytunwyd y taliadau ganlynol:**

1. **Zurich Municipal** **£658.11** Polisi yswiriant 2026-27
   Gweler eitem 12

| 2. | Disgrifiad | Cyflog | Costau | Cyfanswm Gros | Treth wedi tynnu ffwrdd | YG wedi tynnu ffwrdd | Cyflog Net |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Arfon Davies | Cyflog Ebrill a costau | £775.54<br>£26.00 | £18.90<br>£6.96 | £827.39 | £310.00 | £53.78 | £517.39 |

3. **Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth** **£52.00** Tanysgrifiad 2026-27
4. **Michael Leefe** **£336.00** Torri gwair Ebrill (gweler eitem 8)
5. **Michael Leefe** **£672.00** Atgyweiriwr Ebrill (gweler eitem 8)

Cadarnhaodd y Clerc dderbyn yr hawliad ad-daliad TAW ar gyfer 2025-26 wrth CTEM am swm o £1,066.87.

**16. Materion arall a godwyd gan aelodau**

**1.** Bydd y Clerc yn adrodd i'r Cyngor Sir am yr angen i dorri ymylon y gyffordd yng Nglanmorlais.

**Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor ddydd Iau 4ydd Mehefin 2026.**